**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIAD RHIF 4) 2026**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau (1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984:-

1. Mae GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2024, fel y'i diwygiwyd, ("y Gorchymyn Cydgrynhoi)", drwy hyn yn cael ei ddiwygio ymhellach fel a ganlyn:-

1.1. Mewnosod y Cynllun Gorchymyn a bennir yng Ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

1.2. Mae'r Cynllun Gorchymyn a bennir yng Ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi'i ymgorffori yn "y Cynlluniau" fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn Cydgrynhoi ac a gynhwysir yn Atodlen 1 o'r Gorchymyn Cydgrynhoi.

1.3. Mae Atodlen 2 o'r Gorchymyn Cydgrynhoi wedi ei diwygio fel a ganlyn:-

(i) drwy ychwanegu'r geiriad '**AG59**' mewn blwch newydd ar ddiwedd tabl y Mynegai o Gynlluniau Teitl ac o'r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym, darllenir a dehonglir Atodlen 2 o'r Gorchymyn Cydgrynhoi yn unol â hynny.

2. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth a gynhwysir mewn Gorchymyn a wneir neu sy'n cael effaith fel pe bai'n cael ei wneud o dan y Ddeddf ac sy'n bodoli ar yr adeg pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad ar gerbydau ar ddarnau o ffyrdd ac ochrau darnau o ffyrdd a amlinellir ar y Cynlluniau Gorchymyn a bennir yn Atodlen y Gorchymyn hwn.

3. Bydd y cyfyngiadau, y gwaharddiadau a'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofynion a osodir gan unrhyw reoliadau neu Orchymyn a wneir neu sy'n cael effaith fel pe bai'n cael eu gwneud o dan y Ddeddf neu drwy unrhyw ddeddfiad arall.

4. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y cafodd ei ddiwygio, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, a'i ailddeddfu fel neu gan un sy'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

6. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26/03/2026 a gellir ei nodi fel **GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIAD RHIF 4) 2026.**


**Dyddiedig: 12/03/2026**

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR BWRDEISTREF** )
**SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** )
ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb:- )

Llofnodwr Awdurdodedig: [redacted]

## ATODLEN

| Colofn Un Atodlen Map | Dyddiad |
|---|---|
| 1. AG59 | 12/03/2026 |




KW

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIAD RHIF 4) 2026

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND LOADING AND PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2024 (AMENDMENT No.4) ORDER 2026

©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2026. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951
©Crown Copyright and database right 2026. Ordnance Survey AC0000851951

**Allwedd Cyfyngu / Restriction Key**

- Dim Aros Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time
- Dim Aros / Dim Llwytho / No Waiting / No Loading
- Deiliaid Trwydded Yn Unig / Permit Holders Only
- Aros Cyfyngedig / Limited Waiting
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time
- Deiliaid Bathodyn Anabledd Yn Unig / Disabled Badge Holders Only
- Cyfyngiad Defnydd Ddeuol / Dual Use Restriction
- Cyfyngiad Amrywiol / Miscellaneous Restriction
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho / No Waiting At Any Time / No Loading
- Baeau Tacsi / Taxi Bays
- Ysgol Cadw Clir / School Keep Clear
- Cyfyngiad Parthol / Zonal Restriction
- DimAros / No Waiting
- Llwytho Yn Unig / Loading Only
- Clirffyrdd / Clearways

**Arall / Other**

- Ffin BCBC / BCBC Boundary

| | |
|---|---|
| DYDDIAD / DATE | 12/03/2026 |
| GRADDFA / SCALE | 1:1,250 |
| RHIF Y MAP / MAP NUMBER | AG59 |

N W E S

TRA001-1678 O